4.207

# CAN NEWYDD I'R 'D.D.'

**Am fod yr hen Gan yn cael ei hanghofio.**

[*Pris* 2c.]

WEL, d'wedwch a fynoch, mi fynaf D.D.,
Mae parch mawr i 'Ddoctor' yng Nghymru:
Nid Doctor clefydau coch, melyn, neu ddu,
Na Doctor llenyddiaeth na chanu,
Na 'Doctor o'r Gyfraith,' na gwyddor ychwaith,
Na Doctor coethedig athroniaeth,
Ond Doctor crefyddol, yn blasu ei waith
Wrth besgu ar fras Dduwinyddiaeth.

Mae genyf uchelgais am fod yn ddyn mawr,
Dyn mwyaf ei oes heb ammheuaeth;
Ië, Doctor doctoriaid holl wlad Prydain Fawr—
Cawr penaf Oraclau gwybodaeth:
Nid oes ar y ddaiar lawenydd i mi
Mor felus a moledd y werin,
Mae arian y werin yn d'od gyda'u bri,
Ca Doctor gan Gymry eu cenin.

Yr wyf dan anfantais heb dalent neu ddawn
I ddysgu er myn'd i'r Athrofa;
Cynnygiais, ond methais—mi fynaf wneyd iawn
Drwy brynu D.D. o Columbia:
'Rwy'n 'nabod rhyw ddwsin a gawsant D.D.
Na chawsant eu 'codi'n y coleg;'
Prynasant am bumpunt eu graddau o fri—
Dim ond ar yr arian oedd Seisneg.

I dd'od yn boblogaidd ymunaf â'r blaid—
Y glymblaid lywyddant yr enwad;
Ymwthiaf a thynaf y gwifrau'n ddibaid
Er dringo uchelfryn dyrchafiad:
Gwynfydedd pregethwr yw cael 'cyrddau mawr,'
A gorphwys ar chwech o bregethau,
A'u dweyd fil o weithiau i fyny a lawr
I'w 'stwytho i daro eu doniau.

X 205251071

Mor hyfryd yw gweled y brodyr yng nghyd,
  Yn 'r undeb neu yn y gymmanfa,
Yn bloeddio'r 'Amenau' blith draphlith i gyd
  Er cynneu tân hwyl yn y dyrfa:
Cânt hwythau'r llefarwyr bapyrau yr oes
  I'w galw yn 'gewri'r pulpudau;'
A d'wed rhai'n gableddus fod Iesu a'i Groes
  O'r golwg yng nghysgod eu cefnau;

Nad yw uchelwyliau'r enwadau i gyd
  Ond lle 'hysbysebu pregethwyr'—
Rhai mwya'u huchelgais am ennill y byd,
  A cholli eneidiau'r gwrandawyr.
'Pregethwr poblogaidd' wna leiaf o waith,
  Fel gŵyr ei gartrefol ddeadell,
A'r lleiaf ei wybod—mae beunydd ar daith
  Ym mhell o fawr freintiau'i lyfyrgell.

Ni ŵyr mai anfoesol yw gadael ei braidd—
  Ni ddysgodd elfenau'r un Foeseg;
Mae tân ei uchelgais yn ysu ei wraidd,
  Ac weithiau yn toddi ei floneg:
Ca'i eglwys sydd gartref foddloni ar son
  Papyrau yr enwad am dano,
Heb gofio fod gwaith yn ol mesur a thôn
  Y gyflog i dd'od oddi wrtho.

Mae'r praidd, druan, gartref yn ffol gan y ffaith
  Fod 'Jones ni' 'n boblogaidd bregethwr;
Ond dweyd yr un pethau mae Jones ym mhob taith,
  A'u gwella'n ei gof fel adroddwr:
Traddoda'r un geiriau, syniadau, a *jokes*
  Yng nghyrddau y Deheu a'r Gogledd;
A'r un yw ei amcan, sef ceisio gwneyd *strokes*
  Er balchder, a phres, ac anrhydedd.

Rhyw feiddgar anturwyr yw'r dosbarth o'r bron,
  Yn *dweyd* am drysorau y nefoedd,
Tra'n *gwneyd* am oludoedd yr hen ddaiar gron—
  'Byd hwn' sydd yn troi'u hymysgaroedd:
'D'od 'mlaen' yw arwyddnod uchelgais o hyd,
  Nid yw 'bod yn iawn' yn ei demtio;
Mae'n gwthio a sathru ei well yn y byd
  Er esgyn yr orsedd mae'n geisio.

Nid oes dim yn rhy gyssegredig i'w draed,
  Na phulpud, na chroes, na thŷ gweddi;
A thybia fod Crist wedi colli ei waed
  Er mwyn iddo ef gael enwogi:
A'r fath ddiflanedig enwogrwydd yw hwn,
  Anghofir yn llwyr mewn cenedlaeth!
A chleddir ei goffa yn gyfan a chrwn
  Yn fuan ar ol ei farwolaeth.

X 205251071

Bydd llenor fyw'n hirach, a bardd yn ei waith,
  Na'r hwn sydd yn ddim ond pregethwr;
Er gwaetha'i boblogrwydd anghofir y ffaith
  Pan gollir ei lais fel adroddwr:
Ond dyna—fe gafodd ei wobor fel rhai
  Y sonia'r Gwaredwr am danynt,
A dichon mai doeth fyddai claddu ei fai
  Ym meddrod anghofus ei helynt.

Gwyn fyd y rhai dystaw a gariant y Groes—
  Y gwylaidd bregethwyr lafuriant—
Rhai diwyd a ffyddlon, gyssegrant eu hoes
  I lesiant y bobol a'u talant:
Hwynt hwy yw y rhai godant Gymru i'r lan—
  Maent bob dydd yn eu llyfyrgelloedd,
A medrant gyfranu o'u nerth i'r rhai gwan,
  A bod yn oleuni i'w cylchoedd.

Rhyw ddynion anfoddog sy'n cwyno fel hyn,
  Rhyw fodau'n gogwyddo'u beirniadu;
Mae'n rhaid wrth amrywiaeth (fel coch, du, a gwyn
  Mewn lliwiau) 'n y rhai sy'n pregethu:
Amrywiaeth a wisga gorff anian i gyd,
  O wadnau ei thraed hyd ei choryn;
A rhaid i bob tymmor ddilladu y byd
  Cyn gallo ei ddyddiau wneyd 'blwyddyn.'

Mae gweithio'n gartrefol yn ormod i mi—
  Golyga wneyd mwy o bregethau;
A llai o bregethau yw'm calon a'm cri,
  A mwy o bregethu'r un pethau,
Nes d'od i'w traddodi'n ddiattal a rhwydd—
  Pa werin fwynhâ wirioneddau?
Ffrwd geiriau yn llifo yw'r ffordd i gael llwydd,
  A galwad i'r holl uchel wyliau.

Rhaid imi wneyd defnydd o bobpeth a wna
  Ddarbwyllo edmygedd y bobol;
Rhaid gwisgo'n babyddol, ystumio yn *dda*,
  A thonio yn bur annaturiol,
A throsi y bodiau, a gweflu yn ddwys,
  Pwysleisio gwag bethau cyffredin,
A mân ebychiadau lon'd hunan eu pwys—
  Mae hyn yn dduwioldeb i'r werin.

Y werin i mi—aeth yr Iesu'n rhy bell
  Wrth ddweyd, 'Na ofelwch am wisgoedd;'
Condemniodd flaenoriaid y bobol a'u gwell
  Am eistedd yn uwchaf mewn gwleddoedd;
Condemniai y rhai oedd yn chwennych y prif
  Gadeiriau'n yr hen synagogau;
Rhaid nad oedd yn deall yr oesau na'u rhif—
  Mae pawb heddyw'n *fyw* am gadeiriau.

Condemniodd uchelwyr urddasol ei oes
  Am oddef cyfeirchion marchnadoedd;
A'u galw yn Rabbi, a Rabbi mewn moes,
  Parchedig gan werin-dyrfaoedd:
Mae'n flin genyf feddwl y beiai'r awr hon
  Uchelwyr enwoca'r enwadau,
Am oddef eu galw'n Ddoctoriaid o'r bron,
  A chwennych yr uwchaf gadeiriau.

Tra yma mae'n rhaid i mi fyn'd gyda'r oes,
  'Roedd Iesu'n lled *an*ymarferol;
Mae hunan-ymwadiad yn ofid a loes,
  A thramgwydd uchelgais urddasol:
Ymwadiad. Tyt! tyt! aed gwyleidd-dra i'r gwynt—
  Parch, golud, a safle arbenig,
Cymdeithas boneddwyr—daw'r cwbwl yn gynt
  Ar ol cael D.D. o'r Amerig.

Aeth pum punt i'w brynu—pob peth sydd yn iawn,
  'Rwy'n un o 'Oraclau Tangnefedd;'
Mae'r enwad yng Nghymru'n anwylo fy nawn—
  Fe'i clywsant drwy'r wlad, Dde a Gogledd:
Mae cyfrol neu ddwy o'm pregethau'n eu tai,
  A'm darlun addurna'u 'stafelloedd;
A *Breinteb* y Doctor a ddaeth yn ddifai
  O'r 'Merig i mi dros y moroedd.

Mae'n rhaid imi floeddio, neu holltaf yn ddau,
  Nid oes imi eto'r un orsedd
Ond Cadair yr Uudeb—a daw hòno'n glau—
  Rhoir *hi* i'r rhai *sydd* mewn anrhydedd:
A bellach, rhaid imi gael tynu fy llun
  Mewn llyfrgell yn dwys ysgrifenu,
A darlun o honof yn 'stumio fy hun
  Ar uchel areithfa'n pregethu.

Mae genyf frawd gartref, hynodol ei nawd,
  Cymmeriad go wreiddiol yw Ifor;
Pan glywodd ddyrchafiad urddasol ei frawd,
  Fe chwarddodd nes methu d'eyd 'Doctor:'
Anfonodd faith lythyr lled ddoniol i mi,
  A galwai fi'n 'Ddoctor Dai Deio—
Y Parch Dafydd Dafys yn Ffidil-di-di,
  Hir oes it', frawd anwyl, i ffidlo.'

'Ond cymmer *un* cynghor gan Ifor dy frawd—
  Na ddyro fawr serch ar dy gynffon;
Ond gwna ag ef fel y gwna'r paun ar ei rawd—
  Ei ledu i darfu ieir dofion,
Er cipio eu hymborth, tra'n dal ei gwt lan
  I swyno a synu'r ynfydion;
A chofia'r gair olaf—cei farw'n y fan,
  A myn'd *heb* dy gwt trwy yr afon.'

*Ionawr, 1906.* GWALLTER DDU.